------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 1 & 2 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mawrth 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod: 13:00 - 13:30

## 1 Cyflwyniadau, dirprwyon ac ymddiheuriadau

(13:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(13:30)

**2.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Gwelliannau'r Llywodraeth**

(Tudalennau 3 - 4)

**2.3 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus**

(Tudalennau 5 - 7)

**2.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd ynghylch hynt y Bil Hawliau**

(Tudalennau 8 - 9)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch iteriad nesaf y rhaglen Cartrefi Cynnes**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol**

(Tudalennau 12 - 15)

**2.7 Gohebiaeth gan y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalen 16)

**2.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch ymateb y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Gyllideb Cymru 2023 - 2024**

(Tudalennau 17 - 32)

**2.9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-2024**

(Tudalennau 33 - 34)

**2.10 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 35 - 39)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 4 Llythyr drafft at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(13:30) (Tudalennau 40 - 41)

## 5 Cyfiawnder data: y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru - briff llafar gan y cynghorydd arbenigol

(13:30-14:00) (Tudalennau 42 - 55)

Yr Athro Lina Dencik, Prifysgol Caerdydd

Isobel Rorison, Prifysgol Caerdydd

## 6 Sesiwn rhanddeiliaid: Cymru Wrth-hiliol

(14:00- 16:00) (Tudalennau 56 - 65)

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

23 Chwefror 2023

Annwyl Jane,

Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Roedd yn bryder i ni ddysgu, wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, fod llai o gyllid wedi'i ddyrannu i'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer 2023-24 na'r blynyddoedd blaenorol. Fel y gwyddoch, gwnaethom gynnal ymchwiliad yn ddiweddar i'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw, gwnaethom ymweld â nifer o safleoedd awdurdodau lleol a gweld drosom ein hunain fod rhai safleoedd yn orlawn a bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu ar frys yno. Roedd yn syndod i ni, felly, nad yw'r dyraniad ar gyfer y grant wedi cynyddu er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wella'r safleoedd presennol a datblygu rhai newydd.

Roedd y ffaith i chi nodi yn eich llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol na fu unrhyw wariant o'r grant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac na ragwelir unrhyw wariant cyn diwedd mis Mawrth, yn fwy fyth o syndod. Rydym yn pryderu y gallai'r tanwariant fod o ganlyniad i ddiffyg ymgynghori â chymunedau ynglŷn â'r gwelliannau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom fod y gwaith ymgysylltu a wneir yn rhy aml yn docenistaidd. Rydym yn ofni bod y tanwariant yn y maes hwn yn dystiolaeth o hynny, gan ei bod yn amlwg bod angen gwella'r llety presennol a darparu mwy o leiniau, gan gynnwys safleoedd tramwy.

Cawsom ohebiaeth gan awdurdod lleol yn ddiweddar yn nodi bod ganddo ddau safle y mae taer angen eu hailddatblygu ac yn gofyn am gymorth ariannol i wneud y gwaith hwnnw.

Mae'n destun pryder ac yn hynod rhwystredig bod cyllid ar gael i wneud cynnydd positif i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a

Theithwyr yng Nghymru, ond ei fod yn amlwg ddim yn cael ei ddefnyddio. Mae’n bryder hefyd nad yw rhai awdurdodau lleol, o bosibl, hyd yn oed yn gwybod bod grant ar gael na ble i ofyn am gymorth. Dyma ddarlun clir o'r rheswm pam y gwnaethom benderfynu cynnal gwaith ar ddarparu safleoedd yn y lle cyntaf, ac yn anffodus mae'n awgrymu nad yw hwn yn faes blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys, ac mae'n rhaid buddsoddi er mwyn darparu llety digonol ac addas ar gyfer rhai o'r bobl sydd ar gyrion eithaf ein cymunedau.


Yn ein hadroddiad drafft ar y gyllideb, byddwch yn ymwybodol inni wneud argymhelliad ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymau dros y diffyg cynnydd o ran defnyddio’r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gronfa bwysig hon yn cael ei defnyddio. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro beth fydd yn digwydd i'r £3.690 miliwn sydd heb ei wario o gyllideb 2022-23, a chadarnhau y bydd yn cael ei ddyrannu i gymryd camau yn y maes hwn.

Yn ogystal ag ymateb i'r argymhelliad uchod, gan fod chwe mis wedi mynd heibio ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r 21 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.

Fel Pwyllgor rydym wedi ymrwymo i fonitro’r gwaith o weithredu ein hargymhellion ac i gynnal gwaith craffu dilynol mewn perthynas â’r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n faes gwaith blaenoriaeth i ni.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Pob Aelod o'r Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Chwefror 2023

Annwyl Aelod o'r Senedd

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – Gwelliannau'r Llywodraeth**

Rwy'n amgáu manylion y gwelliant a gyflwynodd y Llywodraeth i Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), ynghyd ag eglurhad o'i diben a'u heffaith.

Yn gywir

Hannah Blythyn

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## THE SOCIAL PARTNERSHIP AND PUBLIC PROCUREMENT (WALES) BILL – STAGE 3 GOVERNMENT AMENDMENT

This table provides information about the amendment to be tabled in the name of Hannah Blythyn MS on 23 February 2023.

| No. | GOVERNMENT AMENDMENT | GWELLIANT Y LLYWODRAETH | PURPOSE AND EFFECT |
|---|---|---|---|
| 1. | Schedule 2, page 25, line 4, leave out 'socially responsible procurement' and insert 'well-being'. | Atodlen 2, tudalen 25, llinell 4, hepgorer 'caffael cymdeithasol gyfrifol' a mewnosoder 'llesiant'. | The purpose of this amendment is to amend Schedule 2.<br>The effect of this amendment is to replace a reference to 'socially responsible procurement goals' in Schedule 2 with a reference to 'well-being goals' (this reference was overlooked at stage 2 when all other references to socially responsible procurement goals' were replaced by government amendments). |

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Chwefror 2023

Annwyl Jenny, Huw a Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch cyn y ddadl Cyfnod 3 ar Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 7 Mawrth i'ch hysbysu fy mod i heddiw wedi cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Memorandwm Esboniadol ('ME') ar gyfer y Bil.

Gwnaed diwygiadau drwy gydol y ME i adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gennyf mewn ymateb i nifer o Argymhellion gan y Pwyllgorau yng Nghyfnod 1. Rhestrir y prif newidiadau ar dudalen 45 o'r ddogfen, a bydd yn glir i Gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau i ba Argymhellion y mae'r rhain yn perthyn. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r Argymhellion a ganlyn gan y Pwyllgorau, fel eich bod yn gwybod i sicrwydd bod y rhain wedi cael eu trin yn briodol:

a) Mewn ymateb i Argymhelliad 2 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: gwnaed diwygiadau i destun naratif penodau 3 ac 11 i egluro'n well y canlyniadau y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni a sut y bydd y rhain yn cael eu monitro a'u mesur dros amser. Mae rhanddeiliaid allweddol hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddiwygio'r ME (gweler c) ac e) isod).

b) Mewn ymateb i Argymhelliad 11 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac Argymhelliad 10 cysylltiedig y Pwyllgor Cyllid: mae'r newidiadau a wnaed yng nghyswllt swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilio Cymru i'w gweld ym mharagraff 282 ac yn Nhabl 3.4, a hefyd ym mharagraffau 289 – 293. Byddwch yn cofio imi ddarparu manylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn fy llythyr atoch ar 17 Ionawr - nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y ME

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwygiedig gan nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil.

c) Mewn ymateb i Argymhelliad 17 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Argymhelliad 3 y Pwyllgor Cyllid: yn dilyn ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid caffael cyhoeddus allanol, mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau bod awdurdodau contractio yn gallu cyflawni eu dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, a'r costau cysylltiedig, wedi'u cynyddu mewn ymateb i bryderon bod y ME gwreiddiol wedi rhoi amcangyfrif rhy isel ar gyfer y rhain. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

   - mae'r canllawiau a'r gefnogaeth sydd eu hangen (sydd bellach yn cynnwys sesiynau cymorth cyflenwyr, gyda diwrnodau hyfforddi staff y pen y flwyddyn wedi cynyddu o 8 i 20 y pen) a chost cynhyrchu a darparu hyn, wedi cael eu codi o £360,400 i £641,100 (gweler Tabl 5.1, Tabl 5.4, Tabl 5.7, Tabl 6 a pharagraff 390); a,

   - mae'r amser sydd ei angen ar gyfer gosod a chynllunio amcanion wedi ei gynyddu o 7 diwrnod y pen y flwyddyn i 11 diwrnod y pen y flwyddyn, ac mae'r costau wedi'u codi yn unol â hynny, o £98,400 i £215,900 (gweler Tabl 5.6).

d) Mewn ymateb i Argymhelliad 22 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: ychwanegwyd testun ychwanegol at y ME yn darparu enghreifftiau o'r mathau o amgylchiadau a allai achosi ymchwiliad o dan adran 41 (gweler paragraffau 109 – 112).

e) Mewn ymateb i Argymhelliad 25 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: yn ogystal â'r gwaith a wnaed gyda rhanddeiliaid caffael y cyfeirir ato yn c) uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol i egluro'r newidiadau a wneir i'r ME, gan gynnwys mewn perthynas â chostau. Ymhlith y newidiadau hyn mae:

   - yn lle'r costau sy'n ymwneud â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ('SSPC') a gafodd eu cynnwys yn y ME gwreiddiol, rhoi costau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ('SPF') a'i olynodd. Oherwydd bod gan yr SPF aelodaeth lai a'i fod yn cyfarfod yn llai aml na'r SSPC, mae'r costau wedi'u gostwng o £73,300 i £49,900 (gweler paragraffau 198 – 204 a Thablau 2 a 2.1);

   - ymateb i bryderon bod yr amcangyfrif ar gyfer y costau ymgyfarwyddo mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn rhy isel drwy gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid, gan arwain at gynyddu'r costau o £2,200 i £22,319 (gweler paragraffau 280 – 283 a Thabl 3.4; a

   - cywiro gwall yn Nhabl 3.5 a oedd wedi cyfrifo cost tri chyfarfod Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol y flwyddyn yn hytrach na phedwar.

   Gwahoddwyd adborth gan aelodau SPF ar y newidiadau hyn, sydd wedi'i ystyried wrth lunio'r fersiwn ddiwygiedig derfynol o'r ME.

f) Mewn perthynas ag Argymhelliad 1 y Pwyllgor Cyllid: oherwydd bod yr holl gostau a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gostau staffio (sydd wedi cael eu codi i ystyried y data cyflog diweddaraf sydd ar gael), nid oes unrhyw gostau y gellid eu hailgyfrifo i ystyried chwyddiant prisiau cyffredinol. O ran y mater ehangach a godwyd yn Argymhelliad 2 - fel y cadarnheais yn fy llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2022, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ymateb ffurfiol gan y Gweinidog Cyllid a

Llywodraeth Leol ar y mater hwn maes o law.

Canlyniad y diwygiadau hyn i'r ME yw bod cyfanswm costau'r ddeddfwriaeth hon i'r sector cyhoeddus a’r sector preifat dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd wedi cynyddu o £30,399,200 i £31,552, 219.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd y Senedd
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

1 Mawrth 2023

Annwyl Elin

Bil y Bil Hawliau ("y Bil") a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Rydym yn ymddiheuro'n ddiffuant am yr oedi cyn anfon gohebiaeth yn yr hyn sydd wedi profi'n set o amgylchiadau anarferol ac eithriadol. Roeddem wedi ysgrifennu atoch yn flaenorol yn 2022, a hynny ar sawl achlysur. Anfonwyd yr ohebiaeth ddiwethaf ar 22 Medi, pan ddaeth i'r amlwg, am y tro cyntaf, fod y Bil wedi cael ei oedi gan Lywodraeth y DU.

Ym mis Rhagfyr, cawsom gyfarfod â'r Arglwydd Bellamy, sef yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder. Ar y pryd, awgrymodd y byddai Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r Bil yn ei ffurf bresennol cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod nad yw'r Bil wedi mynd drwy unrhyw un o'i gamau seneddol o hyd. Ym mis Chwefror, anfonwyd llythyr yn gofyn am eglurhad ynghylch unrhyw gynnydd o ran y Bil, ac rydym yn dal i aros am ateb.

Mae'n bosibl bod y Bil wedi cael ei oedi am gyfnod amhenodol, am amryw o resymau. Os bydd y Bil yn cael ailddarlleniad, sy'n debygol o fod ar fyr rybudd, byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y cyfle cyntaf. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd a'r amgylchiadau anarferol ynghylch y Bil hwn, nid yw'n ymddangos yn synhwyrol i fwrw ymlaen â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hyd y gellir rhagweld.

Fel yn achos gohebiaeth flaenorol, rydym yn copïo'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





| | | |
|---|---|---|
| **Jane Hutt AS/MS**<br>Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol<br>Minister for Social Justice | | **Mick Antoniw AS/MS**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Counsel General and Minister for the Constitution |

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Cadeirydd a Chlerc
Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

3 Mawrth 2023

Annwyl Gadeirydd a Chlerc,

Ymhellach i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 27 Chwefror, mae copi ynghlwm o gyfieithiad i Gwestiwn Ysgrifenedig a atebodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, WQ87528.

Mae'r Gweinidog yn disgwyl caffael cynllun newydd, sy'n ymateb i'r galw, sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr.

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**WRITTEN QUESTION**
**FOR ANSWER BY THE FIRST MINISTER FOR CLIMATE CHANGE**
**ON 23 February 2023**

**Sioned Williams (Gorllewin De Cymru):** Yn dilyn datganiad y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd 2022, a yw Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn bwriadu cyflwyno cynllun grant effeithlonrwydd ynni cenedlaethol newydd, a arweinir gan y galw, sy'n canolbwyntio ar gartrefi mewn tlodi tanwydd, i'w gaffael a'i weithredu cyn y gaeaf nesaf?

**Julie James:** Mae swyddogion yn datblygu'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sydd yn ei ffurf bresennol wedi helpu degau o filoedd o aelwydydd Cymru i leihau eu biliau a'u defnydd o ynni. Rwy'n disgwyl caffael cynllun newydd, sy'n cael ei arwain gan alw, sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr. Ni fydd unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a'r rhai presennol.

Bydd y rhaglen newydd yn ystyried y profiad a'r gwersi a ddysgwyd o gyflawni'r rhaglen bresennol ochr yn ochr â'r safbwyntiau a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2022. Bydd y cynllun newydd hefyd yn adlewyrchu argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Seilwaith, a Phwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fel yn ogystal ag archwiliadau amrywiol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

6 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Ionawr ac yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, i adrodd ar gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo a gynhaliwyd ar 1 Chwefror. Roeddwn wedi gobeithio rhoi gwybod ichi am eitemau'r agenda cyn y cyfarfod, ond yn anffodus ni ddaethant i law tan 48 o oriau cyn i'r cyfarfod ddechrau, ac nad oedd hynny'n caniatáu digon o amser. Rwy'n gobeithio y daw'r arfer o rannu dogfennau mewn modd amserol yn norm yn y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol hwn.

Roedd y Gwir Anrh. Suella Braverman KC Aelod o Senedd San Steffan, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban, Neil Gray ASA, a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, Dr Jayne Brady yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod, ail-bwysleisiais ffocws Llywodraeth Cymru ar atal troseddu, gan groesawu'r cyfle a ddarperir gan y Grŵp Rhyngweinidogol hwn i rannu'r arferion gorau.

Hefyd, roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod ein barn ar y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau newydd, ac awgrymais y dylai cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ganolbwyntio ar wella mynediad i lwybrau mudo diogel a chyfreithiol. Mynegais bryderon Llywodraeth Cymru am bolisi presennol Llywodraeth y DU sy'n atal ceiswyr lloches rhag chwilio am gyflogaeth, a'r problemau llety sy'n parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mai, a byddaf yn rhoi gwybod ichi unwaith y bydd dyddiad wedi ei bennu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 1 February 2023 - GOV.UK (www.gov.uk).

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YSGRIFENEDIG DATGANIAD GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo** |
| **DYDDIAD** | **06 Mawrth 2023** |
| **GAN** | **Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, dyma roi gwybod fy mod wedi mynychu cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 1 Chwefror, gan ddod ag aelodau o'r pedair llywodraeth at ei gilydd.

Mynychwyd y cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman CB AS, fel y Cadeirydd, a Gweinidog Diwylliant, Ewrop a Datblygu Rhyngwladol Llywodraeth yr Alban, Neil Gray ASA. Yn absenoldeb Gweinidogion yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon, roedd Dr Jayne Brady, Pennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, hefyd yn bresennol.

Yn ystod y cyfarfod, ailbwysleisiais ffocws Llywodraeth Cymru ar atal troseddau gan groesawu'r cyfle y mae'r Grŵp Rhyngweinidogol hwn yn ei gynnig o ran rhannu arferion gorau. Amlinellais fy ngwaith gyda'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, a'm rôl fel Cydgadeirydd, gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn, ar gyfer ein Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae gan y bwrdd hwn gylch gwaith eang gan gynnwys trais yn y cartref, y gweithle ac mewn mannau cyhoeddus. Ailadroddais ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllido swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ymhellach, ledled Cymru.

Nodais yr angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gael gwybod yn gynnar gan Lywodraeth y DU am ddatblygiadau i Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau, a phwysleisiais yr angen am drafodaethau brys a pharhaol ynghylch llwybrau mudo diogel a chyfreithiol i'r DU. Awgrymais y dylai llwybrau mudo diogel a chyfreithiol fod yn eitem bwysig ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol.

Mynegais fy niddordeb yng Nghynllun Peilot Fisa Gwledig yr Alban.

Bu trafodaeth ynghylch Gwasgaru Ceiswyr Lloches. Tynnais sylw at y pwysau a roddwyd ar Awdurdodau Lleol Cymru a’r effaith negyddol roedd y gostyngiad yn y tariff ar gyfer y Cynllun Adsefydlu Pobl Wcráin wedi’i chael ar gydlyniant cymunedol. Mynegais ein siom ym mholisi Llywodraeth y DU sy’n atal ceiswyr lloches rhag cael swyddi. O ystyried y prinder gweithwyr parhaus mae hyn yn niweidiol i’r economi. Esboniais hefyd fod gan Lywodraeth Cymru strategaeth ar waith i ddarparu llety trosiannol ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion tai yng Nghymru, ac y byddai’n fuddiol os gellid cynnal trafodaethau cyn i Lywodraeth y DU gaffael gwestai yng Nghymru ar gyfer llety brys.

Croesawais y drafodaeth ar rai agweddau ar Ddiogelwch Cartref.

Mae cyd-hysbysiad byr wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn:

[Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 1 February 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)] (Saesneg yn Unig)

Eitem 2.7

To: Minister for Social Justice, Jane Hutt MS
Cc: Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee, Huw Irranca-Davies MS
Chair of the Equality and Social Justice Committee, Jenny Rathbone MS

8 March 2023

Dear Minister,

**Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill**

I am writing to you on behalf of the Gender Network, a policy forum of 50 organisations, activists and academics that aim to strengthen women's rights and gender equality for all women and girls in Wales.

In advance of the Senedd's debate and vote on the Legislative Consent motion on the UK Government's Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill, I would like to highlight the discussion at the most recent Gender Network meeting, held on 1 March 2023.

At this meeting, members of Gender Network were unanimous in expressing profound concerns about the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill and the absolutely devasting impact it would have on the protection of women's rights and gender equality in the UK and Wales. Members highlighted that losing protections related to equal pay, family-friendly policies, pregnancy and part-time working, among others, would mark a significant backward step for women's rights and gender equality. There was agreement that individuals and organisations within the Network needed to mobilise urgently with a view to, ultimately, preventing the passage of this deeply damaging bill.

Given the forthcoming vote, I believed it was essential for me to write to you directly to express the views of the Network.

Yours sincerely,

Jessica Laimann

Jessica Laimann

***Policy and Public Affairs Manager, Women's Equality Network (WEN) Wales***

**Address**
WEN Wales
c/o International House
10 Churchill Way
Cardiff
CF10 2HE

**Contact**
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

**Info**
Charity Number:
1145706
Company Number:
07891533

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Mawrth 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am adroddiad craffu y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 a oedd yn amlinellu 12 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Ynghlwm ceir ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol ar 7 Mawrth.


Yn gywir,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.Cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales
Gohebiaeth.Julie.Jamess@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Jane Hutt AM**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



**Hannah Blythyn AM**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership



**Julie James AM**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



**Rebecca Evans AM**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

# Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2023-24

**Argymhelliad 1.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun costau byw ar gyfer y gaeaf nesaf i ystyried y ffordd orau o gynorthwyo'r rhai y mae colli’r gefnogaeth a ddarparwyd drwy gyllid anrheolaidd wedi effeithio arnynt. Dylai'r cynllun gynnwys pwyslais penodol ar sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu gwarchod. Dylai'r gwaith hwn ddechrau ar unwaith; a chynnwys cyfres o dargedau i fesur perfformiad a’u cyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2023 fan pellaf

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ym mis Medi 2022, sefydlodd y Prif Weinidog Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw, gan ddod â holl aelodau'r Cabinet a phartneriaid ehangach at ei gilydd. Mae hyn wedi sicrhau bod ein cyfrifoldeb a rennir am helpu i liniaru effeithiau'r argyfwng yn cael ei gydgysylltu ar draws y Llywodraeth ac y gall pob Gweinidog hefyd glywed gan bartneriaid am y ffordd y mae'n effeithio ar bobl a chymunedau. Gellir gweld cofnodion yr holl gyfarfodydd yma.

Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi sefydlu Grŵp Arbenigol annibynnol ar Gostau Byw, gan ddod ag amrywiaeth o arbenigwyr a sefydliadau sy'n gweithio ar lawr gwlad at ei gilydd. Bydd y grŵp hwn yn gwneud argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac eraill ynghylch y ffordd orau o gefnogi pobl drwy'r argyfwng, gan gynnwys y gaeaf nesaf. Er bod y grŵp yn annibynnol ac na fyddwn yn ceisio dylanwadu ar ei argymhellion mewn unrhyw ffordd, disgwylir iddo ganolbwyntio ei gyngor ar y rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai y mae cynnydd mewn costau byw yn cael effaith anghymesur arnynt. Byddwn yn ystyried ei argymhellion pan fyddwn yn eu cael a byddwn yn fwy na pharod i'w rhannu â'r pwyllgor hwn.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl drwy'r argyfwng hwn. Fodd bynnag, mae'r toriadau mewn termau real i gyllidebau yn ein setliad gan Lywodraeth y DU yn cyfyngu ar ein gallu i wneud popeth yr hoffem ei wneud. Rhaid inni hefyd gydnabod mai yn nwylo Llywodraeth y DU y mae'r ysgogiadau pwysicaf i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw.

**Argymhelliad 2.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae wedi gwerthuso effaith y Gronfa Cymorth Dewisol mewn blynyddoedd blaenorol ac yna cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i lywio dyraniadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. |

**Ymateb: Derbyn**

Roedd gwerthusiadau blaenorol a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar yr agwedd dechnegol ar y gwasanaeth yn ogystal ag asesu'r effaith drwy rwydwaith partneriaid helaeth y Gronfa Cymorth Dewisol, gan geisio barn gweithwyr cymorth, asiantaethau iechyd meddwl, y gwasanaeth prawf, elusennau digartrefedd a sefydliadau trais domestig sy'n helpu eu cleientiaid i fanteisio ar y gronfa. Mae'r ffaith bod y cleientiaid sy'n gwneud cais am gyllid o'r gronfa yn eithriadol o agored i niwed yn golygu ei bod yn anodd iawn, yn ymarferol, werthuso'r effaith yn uniongyrchol. Mae effaith y taliadau arian parod bach a roddir drwy'r gronfa hefyd yn anodd ei mesur, er y cydnabyddir yn eang ei fod yn achubiaeth i lawer o bobl pan fyddant mewn argyfwng.

Bu newid sylweddol yn y gronfa ers 2020, sy'n golygu bod mwy na 60% o'r gyllideb bellach yn cael ei darparu fel taliadau arian parod brys yn hytrach nag eitemau domestig hanfodol er mwyn i bobl allu cael eu hadsefydlu. Yn y gorffennol roedd y gronfa yn canolbwyntio ar ddyfarniadau ar gyfer eitemau domestig hanfodol er mwyn helpu i adsefydlu pobl a chyllid ar gyfer pobl o dan bwysau domestig eithafol, gyda llai o daliadau arian parod brys yn cael eu darparu ar gyfer pobl mewn argyfwng. Roedd effaith y dyfarniadau hynny yn haws i'w nodi o ystyried y fantais amlwg i unigolyn a oedd yn sefydlu cartref ar ôl cyfnod o argyfwng a oedd yn deillio o gael y nwyddau hyn.

Mae'r ffactorau a nodwyd uchod yn golygu bod cynnal adolygiad cynhwysfawr o effaith y Gronfa Cymorth Dewisol yn fwy cymhleth. At hynny, mae taliadau'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ymdrin ag argyfwng uniongyrchol mewn ffordd a allai ei gwneud yn bosibl i unigolyn symud i ffynhonnell arall o gymorth. Felly, gallai'r effaith amlygu ei hun drwy unigolion yn manteisio ar lwybrau eraill at gymorth e.e. y Gronfa Gynghori Sengl. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iawn monitro effaith y Gronfa Cymorth Dewisol ar wahân i ymyriadau eraill.

Er mwyn lliniaru'r cymhlethdodau hyn a'r bylchau hyn mewn gwybodaeth, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio nodi cysylltiadau a dangosyddion cyffredin rhwng y galw am y Gronfa Cymorth Dewisol a thueddiadau mewn meysydd eraill megis tai, rhentu cymdeithasol a rhentu preifat a thlodi plant. Dylai hyn helpu i asesu tueddiadau yn y dyfodol sy'n debygol o effeithio ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Bydd swyddogion hefyd yn dadansoddi'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn dosbarthu taliadau o'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn sicrhau bod defnydd cymesur yn cael ei wneud ohoni ledled Cymru.

Caiff y gwersi a ddysgir o'r ymarfer hwn eu cymhwyso at ddyraniadau 2023-24 a wneir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 ac, ynghyd â phroses gyllidebol fanwl i

fonitro'r galw, y disgwylir iddi ddangos cynnydd sylweddol parhaus yn ystod 2023-24, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith y Gronfa Cymorth Dewisol a nifer y bobl sy'n manteisio arni ledled Cymru

**Argymhelliad 3.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dyraniadau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Cyngor Sengl yn barhaus, gyda'r potensial i'w cynyddu os oes angen. Dylai hyn gynnwys cymryd stoc o lefel y galw am y ddwy gronfa, er mwyn sicrhau y bydd digon o arian ar gyfer y gaeaf nesaf. |

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi gwasanaethau cynghori er mwyn sicrhau y gall rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas gael cyngor y sicrhawyd ei ansawdd ar faterion sy'n ymwneud â dyled, cyflogaeth a budd-daliadau lles

Mae mwy nag £11.04m wedi'i ddyfarnu ar gyfer gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl bob blwyddyn ers iddi gael ei chyflwyno yn 2020. Bydd cyllideb 2023-24 yn ariannu fframwaith o wasanaethau cynghori cyffredinol ac arbenigol ledled Cymru, gyda'r dull cyflawni cydweithredol yn sicrhau bod gwasanaethau yn cyrraedd y bobl sydd eu hangen fwyaf. Gwyddom fod costau byw yn rhoi pwysau ariannol ar nifer cynyddol o aelwydydd a byddwn yn parhau i weithio gyda'n darparwyr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Comisiynwyd dadansoddiad annibynnol o anghenion er mwyn creu sail dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr o'r angen am gyngor ar les cymdeithasol. Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad hwn i lywio ein penderfyniadau ynghylch faint o gyllid a ddarperir ar gyfer gwasanaethau cynghori yn y dyfodol. Mae gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa Gynghori Sengl hefyd yn cael ei gynnal. Bydd yn ein helpu i ddysgu gwersi o ran y ffordd yr ymatebodd gwasanaethau i'r angen cynyddol a grëwyd gan bandemig COVID-19 a llywio ein syniadaeth ynghylch y ffordd y gellir helpu'r sector cynghori i ateb y galw am wasanaethau cynghori yn y dyfodol.

Byddwn yn monitro'r galw am y Gronfa Cymorth Dewisol yn ofalus bob mis yn ystod 2023-24 ac yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl sy'n agored i niwed sy'n wynebu sefyllfa o argyfwng.

Gwnaed gwaith dadansoddi helaeth ym mis Ionawr 2023 ar y lefelau uchaf erioed o alw am gymorth a'r cynnydd sylweddol a welwyd mewn taliadau arian parod brys yn ystod 2021-22 a 2022-23. Mae'r gwaith dadansoddi hwn wedi'i ystyried yn y penderfyniadau ar yr hyn y gall y gronfa ei gyflawni yn ystod 2023-24. Ni ellir disgwyl i'r cyllid gael ei gynyddu os bydd y galw yn uwch na'r cyfraddau twf a ragwelir. Gwneir penderfyniadau er mwyn sicrhau bod y gronfa yn dal i fod yn hydrin ac y gall barhau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol.

**Argymhelliad 4.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio’r Siarter Budd-daliadau i ystyried sut y gall awdurdodau lleol drosglwyddo tenantiaid tai cymdeithasol cymwys i gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi. |

**Ymateb: Derbyn**

Er nad yw'n canolbwyntio'n benodol ar denantiaid tai cymdeithasol, mae datblygu siarter ar gyfer darparu Budd-daliadau Cymreig wrth wraidd ein gwaith i symleiddio'r system Budd-daliadau Cymreig a'i nod yw ei gwneud yn haws i bobl yng Nghymru gael budd-daliadau datganoledig. Mae bellach gennym Siarter ddrafft a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid (sy'n nodi'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd system deg a chyfartal sy'n seiliedig ar hawliau) ac rydym yn ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid cyflawni ac unigolion er mwyn sicrhau y caiff ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Mae ein gweithgarwch ymgysylltu cychwynnol wedi cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi tenantiaid tai cymdeithasol gyda chynlluniau i ymgysylltu ymhellach â thenantiaid eu hunain drwy arolygon ar-lein a grwpiau ffocws.

Yn ogystal â datblygu'r Siarter Budd-daliadau Cymreig mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddod o hyd i atebion i'r rhwystrau ymarferol i symleiddio'r system sydd wedi'u nodi gan bartneriaid cyflawni (awdurdodau lleol). Mae'r rhain yn cynnwys rhannu data a diffyg systemau TG unedig. Mae gwaith ymchwil yn mynd rhagddo a fydd yn darparu gwybodaeth am y ffordd y gallai rhannu data oresgyn y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu o ran cael y budd-daliadau Cymreig (lluosog) y mae ganddynt hawl iddynt ac argymhellion a fydd yn annog awdurdodau lleol i roi camau gweithredu penodol ar waith a fydd yn cefnogi ymhellach y seilwaith ar gyfer system Budd-daliadau Cymreig symlach, fodern ac effeithiol.

**Argymhelliad 5.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ar frys erbyn Ebrill 2023 fan pellaf i ddarparu atebion cynaliadwy i aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd unrhyw fwlch mewn darpariaeth rhwng diwedd y Rhaglen bresennol ac iteriad nesaf y cynllun. |

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae swyddogion wrthi'n datblygu'r iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ar hyn o bryd. Bydd y rhaglen nesaf yn ystyried profiad a gwersi a ddysgwyd o gyflwyno'r rhaglen bresennol a barn pobl eraill a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2022. Bydd y cynllun newydd hefyd yn adlewyrchu argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Seilwaith a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ogystal â gwahanol archwiliadau.

Caiff Gweinidogion eu hysbysu'n fuan gyda'r nod o gyhoeddi datganiad polisi cyn gynted â phosibl. Nid yw'n bosibl gwarantu ar hyn o bryd y gellir gwneud hyn erbyn diwedd mis Ebrill. Ni fydd unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglen newydd a'r rhaglen bresennol. Byddwn yn sicrhau bod rhaglen newydd yn gwbl weithredol cyn i'r rhaglen bresennol ddod i ben.

**Argymhelliad 6.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffigurau nifer y bobl a fanteisiodd ar y Cynllun Talebau Tanwydd o'u cymharu â'r targedau a osodwyd pan lansiwyd y cynllun, o ran mesuryddion rhagdalu a chartrefi oddi ar y grid. Dylai hefyd ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o nifer y bobl hyn, a chyhoeddi crynodeb o'i chanfyddiadau i hysbysu datblygiad polisïau yn y dyfodol.

Ymateb: **Derbyn**

Ar 10 Chwefror, roedd 11,022 o aelwydydd wedi cael Taleb Danwydd er mwyn eu helpu i wneud taliadau atodol ar gyfer eu mesurydd rhagdalu, gan gefnogi mwy na 29,000 o bobl. Mae 115 o aelwydydd oddi ar y grid nwy wedi cael cymorth gan y Gronfa Gwres i swmp-brynu tanwydd (olew, LPG, glo). Mae'r cyllid hefyd wedi helpu'r Fuel Bank Foundation i gynyddu ei rwydwaith partneriaid yng Nghymru o 5 i 70 mewn ychydig fisoedd (heb gynnwys holl wasanaethau lleol Cyngor ar Bopeth sy'n bartneriaid) ac rydym yn disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu i fwy na 100 erbyn diwedd y cyfnod cyllido.

Cafodd nifer y bobl yr oedd disgwyl iddynt fanteisio ar y cynllun talebau tanwydd seiliedig ar alw a'r gronfa gwres ei gyfrifo yn seiliedig ar brofiad y Fuel Bank Foundation yng ngweddill y DU. Er enghraifft, roedd disgwyl i'r galw gynyddu wrth i sefydliadau ychwanegol ymuno â rhwydwaith Cymru o bartneriaid atgyfeirio. Byddai gerwinder y tywydd dros y gaeaf hefyd yn dylanwadu'n fawr ar nifer y bobl a fyddai'n manteisio ar y cynllun.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ffigurau ar gyfer nifer y bobl a fanteisiodd ar y cynllun yn erbyn y nifer a ragwelwyd yn wreiddiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Fuel Bank Foundation er mwyn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd ar nifer y bobl a fanteisiodd ar y cynllun a'r broses o ddatblygu'r rhwydwaith partneriaid yng Nghymru.

**Argymhelliad 7.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir gyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o ddyraniadau ar draws adrannau ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+. |

Ymateb: **Derbyn**

Bu dyraniadau penodol ar gyfer gwaith gwrth-hiliol yn ogystal â rhoi'r cynllun ar waith sydd wedi'u hymgorffori mewn busnes fel arfer ac nid yw'n bosibl nodi pob un o'r dyraniadau hynny ar wahân. Ni allwn ymrwymo i roi esboniad llawnach o'r buddsoddiad yn y ddau gynllun dros y flwyddyn ariannol nesaf, wedi'i gysylltu â gwaith Grŵp Atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi'r Nodau a'r Camau y byddwn yn eu cymryd dros y 24 mis nesaf, sy'n ymdrin â phob agwedd ar fywyd cyhoeddus sy'n llywio profiad a chyfleoedd bywyd pobl ethnig leiafrifol ac yn dylanwadu arnynt.

Er mwyn mabwysiadu dull gweithredu gwrth-hiliol, bydd angen i Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus a phob un ohonom fod yn rhagweithiol wrth nodi hiliaeth systemig a mynd i'r afael â hi ym mhob agwedd ar y ffordd y mae Cymru yn gweithio. Mae'n golygu bod angen inni edrych ar y ffordd y mae hiliaeth wedi'i hymgorffori yn ein polisïau, ein rheolau ffurfiol ac anffurfiol a'r ffordd rydym yn gweithio ac yn cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt – ac yna gwneud rhywbeth yn ei gylch.

Cynllun i'r Llywodraeth gyfan yw hwn sy'n cynnwys ymrwymiadau a chamau gweithredu o bortffolios Gweinidogol ac o fewn gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

Cafodd dyraniadau ar draws adrannau ar gyfer Cynllun Gweithredu LHDTC+ eu dadansoddi fel rhan o bapur y Cabinet i gymeradwyo cyhoeddi'r Cynllun. Mae cynlluniau cyllido ar gyfer Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi'u cynnwys yng Nghyllideb Bolisi LHDTC+ gwerth £456,000 yn 2023-24.

**Argymhelliad 8.**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ar frys y rhesymau dros ddiffyg cynnydd ar ddefnyddio’r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut mae’n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau defnydd o’r gronfa bwysig hon. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro beth fydd yn digwydd gyda’r £3.690 miliwn o Gyllideb 2022-23 nas gwariwyd, a chadarnhau y bydd yn cael ei ddyrannu i gamau gweithredu yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r grant hwn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn adnodd pwysig ar gyfer datblygu gwaith i wella safleoedd a chreu rhai newydd.  Nid oes rhaid i Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r grant i wneud hyn. Gellir ei flaenoriaethau o'r tu mewn i gyllidebau presennol.

Mae cynigion ar gyfer safleoedd newydd a hyd yn oed ar gyfer gwelliannau yn aml yn gymhleth.  Mae hyn yn golygu mai anaml y cânt eu cwblhau'n gyflym a'i bod yn bosibl bod cynnig wedi bod yn cael ei ddatblygu ers peth amser cyn i gais am grant gael ei wneud.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwybodol o'r pryderon ac o'r farn ei bod yn hanfodol bwysig manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad mewn safleoedd newydd a gwelliannau i safleoedd presennol.   O ystyried yr heriau, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ymgysylltu a hyrwyddo'r grant er mwyn symud pethau ymlaen ac mae swyddogion wrthi'n cyfarfod â chynrychiolwyr y cymunedau ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru er mwyn asesu anghenion a chwmpas i fanteisio ar y grant.

Nid yw'r £3.690 miliwn nas gwariwyd yn 2022-23 wedi'i ddyrannu ar gyfer camau gweithredu eraill yn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i leihau pwysau mewn meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru egluro cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol (a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2023) o ble y daw cyllid ar gyfer y gronfa argyfwng i gefnogi menywod Heb Hawl i Arian Cyhoeddus. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir ei blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2023-34 o ran cyflawni strategaeth VAWDASV. |

Ymateb: Derbyn

Cred y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn bendant mai Llywodraeth y DU sy'n llwyr gyfrifol am y problemau a wynebir o ran pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Mae'r dull 'Cenedl Noddfa' yn nodi'n glir werthoedd Llywodraeth Cymru.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gefnogi menywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban fel enghraifft. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu cronfa o'r fath.

Mae'n bwysig bod y gronfa hon yn sicrhau bod cymorth cynhwysfawr ar gael i'r rhai sy'n ffoi rhag VAWDASV nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus. Mae hynny'n cynnwys cynhaliaeth, llety a chymorth arbenigol sy'n ddiwylliannol briodol. Mae swyddogion yn ystyried opsiynau gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ddarparu'r lefel gywir o gyllid ar gyfer y cymorth hwn.

O ran blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2023-24, mae'n amlwg bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar sector arbenigol VAWDASV a'i allu i gynnig cymorth sy'n achub bywydau i ddioddefwyr a goroeswyr. Yn ogystal â chostau cynyddol rhedeg gwasanaeth, mae'r argyfwng yn gwaethygu'r gamdriniaeth a wynebir gan ddioddefwyr a goroeswyr. Os na all gwasanaethau ymateb i'r cynnydd hwn, bydd yr argyfwng costau byw yn atal menywod rhag ffoi rhag camdriniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido rhanbarthau a gwasanaethau arbenigol VAWDASV i ddarparu cymorth amhrisiadwy sy'n achub bywydau i holl ddioddefwyr VAWDASV.  Mae hyn yn cynnwys ymyriadau, cymorth ataliol ac addysgol, rhaglenni ymyriadau i gyflawnwyr, Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol ar gyfer dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel yn ogystal ag ymyriadau adfer therapiwtig i roi cymorth parhaus i'r rhai y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt.

Cyllideb refeniw ddrafft ddangosol VAWDASV ar gyfer 2023-2024 yw £8.005 miliwn, sy'n cynnwys cynnydd o 1.65% (£130,000) o gymharu â'r gyllideb ddangosol. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer Rhanbarthau VAWDASV a'r gwasanaethau arbenigol a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac wedi cynyddu'r dyraniad ar gyfer y Rhanbarthau 5% a'r dyraniad ar gyfer y gwasanaethau arbenigol 4%. Mae'r rhai a ariennir gennym wedi diolch inni am y cynnydd hwn, a fydd yn sicrhau y gall gwasanaethau hanfodol sy'n achub bywydau barhau i gefnogi'r rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt.

Caiff Strategaeth Genedlaethol VAWDASV, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, ei chyflawni drwy ddefnyddio dull glasbrint, a fydd yn dwyn ynghyd sefydliadau datganoledig ac annatganoledig, yn ogystal ag atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector arbenigol. Bydd rhan o'r dull hwn o weithredu yn cynnwys gweithgor, a gydgadeirir gan un o'n Cynghorwyr VAWDASV Cenedlaethol, a fydd yn edrych ar gomisiynu cynaliadwy er mwyn sicrhau bod dull cydweithredol o gomisiynu gwasanaethau VAWDASV sy'n lleihau dyblygu ac yn targedu cymorth ac ymyriadau lle mae eu hangen fwyaf. Bydd hyn yn sicrhau, drwy weithredu ar y cyd, y gallwn ymateb i broblemau sy'n dod i'r amlwg megis yr argyfwng costau byw sy'n golygu, waeth ble mae dioddefwr yn byw yng Nghymru, fod gwasanaeth cyhoeddus arbenigol, cadarn yn barod i helpu.

Mae'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a'r glasbrint yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, a gydgadeirir gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn. Trafodwyd yr argyfwng costau byw yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Hydref a bydd yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol, a dylid rhannu'r canfyddiadau o'r rhain â'r Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf. |

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Drwy ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb diwygiedig, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar wella prosesau cyllidebol a threthi. Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb eisoes yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd mewn perthynas ag atal.

Mae atal yn faes cymhleth. Mae'n bwysig cydnabod bod sbectrwm sy'n amrywio o atal pobl rhag marw neu fusnesau rhag mynd i'r wal ym mhen mwy acíwt y sbectrwm – fel y gwelsom yn ystod y pandemig; i gamau gweithredu tymor hwy yn y pen arall, megis drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar ac addysg er mwyn dileu anghydraddoldeb sy'n pontio cenedlaethau.

Drwy gynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar gyfer 2023, byddwn yn ystyried sut y gallwn ddatblygu ein gwaith ar atal gan gydnabod bod hwn yn uchelgais hirdymor. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried yr achos dros ddefnyddio cyngor arbenigol wedi'i gomisiynu yn erbyn costau gwneud hynny – ni fydd hyn yn digwydd cyn diwedd tymor yr haf. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol a gwledydd eraill er mwyn nodi arfer orau mewn meysydd gwella'r broses gyllidebol ehangach.

**Argymhelliad 11.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r bwriad o gyhoeddi cofnod manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau cyn y Gyllideb Derfynol. |

Ymateb: Gwrthod

Er ein bod yn ymrwymedig i wella'r ffordd rydym yn gwneud ein penderfyniadau am wariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull gweithredu o'r fath fod yn gymesur.

Rydym yn parhau i amlinellu'r camau a gymerwn i wneud gwelliannau i'n proses Asesu Effaith Integredig Strategol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut rydym yn cynnal y broses Asesu Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi cynnwys rhai newidiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddir fel rhan o Gyllideb Ddrafft y flwyddyn hon. Mae rhagor o gamau gweithredu tymor hwy yn cael eu hystyried drwy waith sy'n dal i fynd rhagddo gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

Hefyd, mae'n bwysig cydnabod o hyd fod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn yn amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi ategu ein penderfyniadau am wariant. Mae'n un o blith nifer o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft, ac mae effaith y penderfyniadau am wariant wedi'i hamlinellu yn y prif naratifau ym mhenodau pedwar, a ategir gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad A. At hynny, rydym yn cyhoeddi crynodeb helaeth o holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant; bydd hyn yn rhoi cyfrif manylach o effaith penderfyniadau ar y Gyllideb Ddrafft ar grwpiau gwahanol.

**Argymhelliad 12.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol mewn pryd ar gyfer y Gyllideb Derfynol. |

Ymateb: Gwrthod

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi ein cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwaith dadansoddi dosbarthiadol. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad cychwynnol ochr yn ochr â'n cyllideb ar gyfer 2021-22 ac ymhelaethu ar hyn y llynedd ochr yn ochr â'n cyllideb ar gyfer 2022-23. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi gwaith dadansoddi dosbarthiadol pan fydd methodolegau newydd neu ddatblygiadau newydd o ran data.

Gwneir y gwaith dadansoddi hwn ar flaenoriaethau gwariant eang ac, felly, dim ond newidiadau mawr iawn mewn gwariant a fyddai'n ymddangos fel newidiadau yn y dosbarthiad gwariant. Mae hyn yn golygu y bydd yn briodol defnyddio'r gwaith dadansoddi a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb y llynedd o hyd ar gyfer cyllideb 2023-24.

Ar ddata o'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd ac Arolwg Cenedlaethol Cymru y mae'r gwaith dadansoddi yn dibynnu'n bennaf. Effeithiodd pandemig COVID-19 ar faes gwaith yr Arolwg o Adnoddau Teuluoedd a chyfraddau ymateb. Oherwydd hyn, byddai unrhyw waith dadansoddi yn seiliedig ar yr un data ag a geir yng nghyllideb 2022-23. At hynny, mae'r Arolwg Cenedlaethol ond yn cynnwys cwestiynau perthnasol am wasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir yn rheolaidd gan nad oes fawr ddim newid dros amser yn yr atebion i'r cwestiynau hyn. Nid oes unrhyw ddiweddariadau i ddata perthnasol yr Arolwg Cenedlaethol y gellir diweddaru'r gwaith dadansoddi yn seiliedig arnynt.

Rydym yn ymrwymedig i ddiweddaru a gwella'r gwaith dadansoddi lle y bo'n briodol ac yn bosibl. Cafodd cwestiynau ychwanegol eu cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol yn 2022-23, a disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2023. Bwriedir cyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol wedi'i ddiweddaru o wariant ochr yn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25.

**Y Pwyllgor Cyllid**

—

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

8 Mawrth 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad sy'n craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, gwnaethom nifer o argymhellion yn ymwneud â gwella gosodiad y gyllideb. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

O ganlyniad, gan ystyried y profiad o graffu ar y gyllideb eleni a'r nod o sicrhau gwelliannau i'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 a thu hwnt, byddai'n dda gennyf gael barn eich pwyllgorau mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn:

**Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?**



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Gofynnir i chi gyfeirio yn eich ymateb at ba mor brydlon a pha mor ddefnyddiol oedd unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth a ddaeth i law, ac at safon y ddogfennaeth a/neu dystiolaeth hynny.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymatebion erbyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2023**. Yna bydd eich safbwyntiau yn cael eu coladu a'u bwydo yn ôl i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i'w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Cyllideb 2024-25, a fydd yn cael ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gynhelir cyn toriad yr haf.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jenny Rathbone MS
Chair
Equality and Social Justice Committee
Senedd Cymru
SeneddEquality@Senedd.Wales

15 March 2023

Dear Jenny,

Thank you for your letter of 17 February about the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill. It raises a number of points on which my colleague, the Counsel General and Minister for the Constitution, has already responded to the Legislation, Justice and Constitution Committee, on two occasions, and I have included the same relevant material in this letter.

The responses to the points that you raised are set out below.

*Provide the Welsh Government's view on the impact of the Bill on matters within the Committee's remit in Wales.*

The Bill is essentially an enabling Bill and its full implications will be influenced by policy choices of UK Government Ministers about which pieces of legislation should be retained, amended, or left to sunset. Unless and until that detailed information is provided, we are all working in a very uncertain situation, with the obvious attendant difficulties that that causes both for the Welsh Government, and for your Committee in a scrutiny role. We hope to have fuller information very soon from the UK Government and will be able to discuss more fully with your Committee the particular implications for matters within its remit then.

*Provide the Committee with a list of relevant Retained EU Law (REUL) made by the Welsh Ministers within its remit.*

We intend to provide the Senedd with a list of all REUL made by Welsh Ministers.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Provide a response from Welsh Government to stakeholder views on the impact of the Bill on Wales' equality and human rights.*

We are not aware of any particular stakeholder views to which the Committee refers.

*Set out the Welsh Government's plans to use the Bill's powers in relation to standards within this Committee's remit.*

In general, our position is that retained EU law, like EU law before it, works well. We have no intention of using any powers in the Bill to alter any standards in the remit of your Committee.

The EHRC is the regulatory body which is responsible for enforcing and monitoring the Equality Act 2010. The EHRC in its briefing for the House of Lords second reading of the Bill, in February 2023, expressed concerns that: "*the volume and speed of changes required by the Bill will make it hard for devolved governments and public bodies in Wales and Scotland to comply with the law such as by publishing equality impact assessments. This risks regression in equality and human rights* ***standards***". We share this valid concern and would concur with the EHRC's recommendation for "the Bill to be amended to ensure the effective scrutiny of any regulations which could result in changes to equality and human rights protections."

*Provide information on what discussions Welsh Government have had with other governments in the UK about the impact of the Bill on matters within the Committee's remit and whether/how any changes to relevant REUL might be coordinated, if the Bill is passed.*

We have made clear to the UK Government the importance of appropriate co-ordination on all pieces of REUL covering devolved matters, or which have an impact on devolved matters. We work closely with the Scottish Government on matters of mutual interest. We maintain close co-operation with officials in the Northern Ireland Civil Service on appropriate matters.

*Explain how and whether relevant items on the Welsh Government's legislative programme might be affected.*


We will continue to share information about the Bill as it becomes available, and we are open to having preliminary discussions in confidence about potential implications for business in the Senedd.

*Provide the Welsh Government's view on how the Bill might interact with Wales' equality and human rights international obligations.*

The Welsh Government is keen to ensure that anything arising from the REUL Bill does not jeopardise its compliance with any international obligations. Given the complex nature of compliance, and the UK Government's responsibility for international relations, we will need to engage further with the UK Government to understand better their approach to this issue. We will revert to the Committee in due course in light of their response.

*Provide the Welsh Government's view on how the Bill might interact with the UK Government's Bill of Rights Bill, if it is reintroduced.*

It is premature to be able to provide an assessment of any such impact until, at least, the precise intentions of the UK Government in relation to relevant policy areas governed by pieces of REUL are clearer, and until there is any clear action from the UK Government by way of progressing the Bill of Rights Bill. At present, the Bill remains introduced but has not progressed to a 2nd reading in the House of Commons.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice
Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

17 Chwefror 2023

Annwyl Jane,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Ddydd Llun 13 Chwefror 2023, fe wnaethom ni nodi gohebiaeth a rannwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Yng ngoleuni'r wybodaeth yn yr ohebiaeth honno, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad ar y materion a ganlyn.

A fyddech cystal â:

- rhannu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y Bil ar faterion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yng Nghymru;
- rhoi rhestr i'r Pwyllgor o Gyfraith yr UE a Ddargedwir a nodwyd (*nid a wnaed*) gan Weinidogion Cymru o fewn ei gylch gwaith;
- cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith y Bil ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru;
- nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pwerau'r Bil mewn perthynas â safonau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn;
- darparu gwybodaeth am drafodaethau y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac a oes modd/sut mae modd cydgysylltu unrhyw newidiadau i gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir, os caiff y Bil ei basio;
- egluro a allai hyn gael effaith ar eitemau perthnasol ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a sut hynny;

- cyflwyno barn Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gallai'r Bil ryngweithio â rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru o ran cydraddoldeb a hawliau dynol; a

- chyflwyno barn Llywodraeth Cymru am sut y gallai'r Bil ryngweithio â Bil Hawliau Llywodraeth y DU, os caiff ei ailgyflwyno.

Byddem yn croesawu ymateb erbyn 1 Mawrth 2023.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd yu Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Eitem 4



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon